

Ynghylch Peak

Ein gwerthoedd

Mae Peak yn gwerthfawrogi creadigrwydd fel offeryn hanfodol ym mywydau pawb. **Rydym yn gweithio er mwyn sicrhau bod cymunedau gwledig ac ôl ddiwydiannol yn cael eu clywed a'u gweld, yn enwedig y rheini sydd bellaf o ganolfannau grym.** Rydym yn canolbwyntio ar bobl ifanc, yn enwedig rheini rhwng 16 a 25 mlwydd oed, a fydd yn cyflawni gwaith allweddol o ran ail-ddychmygu ein dyfodol ac yn mynd l'r afael â materion o bwysigrwydd byd-eang yn eu cymunedau.

Ein pobl

Staff – ar hyn o bryd tîm o ddau aelod o staff llawn amser sydd gennym, y Cyfarwyddwr Justine Wheatley a'n Cyfarwyddwr Creadigol Melissa Appleton. Rydym yn gweithio hefyd gyda thîm gwych o weithwyr llaw-rwydd yn cynnwys ein cyd-lynydd ar y Gymraeg Dylan Huw, ein Curadur Louise Hobson a'n Swyddog Cyllid Hannah Griffiths.

Bwrdd – Mae [Ymddiriedolwyr](#) Peak (wyth ar hyn o bryd) yn darparu arweiniad strategol effeithiol a chefnogaeth, gan rannu cyfrifoldeb rhyngddynt am is-grwpiau Peak, y paneli ymgynghorol a meysydd polisi allweddol.

Grwpiau – [sPeak](#), grŵp pobl ifanc a Pegwn, grŵp trafod y dyfodol yn Gymraeg sy'n cwrdd yn fisol neu'n ddeufisol er mwyn trafod a mynychu gweithdai dan arweiniad artistiaid, gan fwydo rhaglenni artistig ehangach Peak.

Ein lleoliad

Ysbrydolir gwaith ac ymateba Peak i'w gyd-destun daearyddol yn y Mynyddoedd Duon. Mae ein rhaglen yn gwasanaethu cymunedau gwledig Powys a Sir Fynwy yn ogystal â chymunedau ôl-ddiwydiannol ym Mlaenau-Gwent, Torfaen, Rhondda Cynon Tâf, Merthyr Tudful a Chasnewydd. Mae herio syniadau ynghylch ardaloedd gwledig Cymru yn rhan o'n gwaith.

Mae gan Peak ofod newydd yng ngorsaf Drên Y Fenni; bydd y Cydymaith Cyfathrebu â swyddogaeth bwysig o ran datblygu'r gofod newydd hwn mewn cyd-weithrediad â sPeak, ein grŵp pobl ifanc. Bydd hwn yn ofod prosiectau ar blatfform 2 sef arhosfan trenau tua'r de a gofod stiwdio ym mhrif adeilad yr orsaf.

Mae ein lleoliad yng Ngrucywel, Yr Hen Ysgol, wedi ei leoli ar yr A40 ac yn hygyrch ar y bws. Mae'r adnoddau yno yn cynnwys stwdio gelf bwrpasol, cegin llawn offer, adnoddau crochenwaith, a swyddfeydd. Mae rhannu bwyd yn elfen o'n fframwaith o weithredu trwy gymryd rhan, ac ar y gweill gennym mae ail-drefnu iard yr ysgol i fod yn ardd gymunedol.

Ein rhaglen artistig

Mae ein gwaith yn ymateb i egwyddorion cynaladwyedd a llesiant Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru. Rydym yn gweithio gyda phartneriaid ar draws sectorau diwylliant, yr amgylchedd, treftadaeth, iechyd ac addysg er mwyn cyflawni ein hamcanion. Ymhlith ein partneriaid cyfredol a diweddar mae [Glandwr Cymru](#), prosiect [Skyline](#) ac [Y Gaer](#). Ein ffocws yw'r celfyddydau gweledol a chymwysedig, gweithredu cyfranogol ac ysgrifennu creadigol.

Yn ystod 2021, mae ein rhaglen yn ymateb yn benodol i waith Raymond Williams, yr awdur, meddyliwr ac academydd, a aned ac a fagwyd yn y Fenni, ac yr oedd ei dad yn gweithio ar y rheilfordd. Eleni nodir canmlwyddiant ei eni.

Ein canlyniadau

Nod rhaglen artistig Peak yw meithrin rhagoriaeth gelfyddydol, mentro a wynebu risgiau, galluogi cyfranogi yn niwylliant a chelfyddyd gyfoes, meithrin doniau creadigol a medrau a chefnogi lles, hyder a dycnwch unigolion a chymunedau. Rydym eisiau i leisiau pobl Cymru wledig gael eu gweld a'u clywed.



Festival of Ideas, Skyline, Treherbert 2019
photo by Mike Erskine

Ein hethos a'n gweithle

Fel man gwaith nod Peak yw bod yn fodel o broffesiynoldeb, unplygrwydd, agwedd agored, a gonestrwydd. Rydym yn rhannu arweinyddiaeth ar draws y sefydliad, ymhlith artistiaid, staff ac ymddiriedolwyr – mae cyfleoedd go iawn i chi fwydo i mewn i'r strwythur, cyfrannu at ein penderfyniadau a bod yn barod i wireddu hunaniaeth. Ceisiwn gynnig anogaeth a charedigrwydd gyda phwy bynnag yr ydym yn gweithio â nhw, ac mae eu lles nhw yn flaenoriaeth.

Rydym yn gweithio'n bennaf o adref; defnyddiwn Zoom er mwyn cysylltu â'n gilydd a medrwn ddarparu unrhyw offer neu dechnoleg sydd eu hangen arnoch er mwyn gweithio o adref. Rydym yn cwrdd fel tîm staff unwaith yr wythnos, yn datblygu a rhannu agenda yn ein tro. Rydym hefyd yn cynnal cyfarfod rhaglen wythnosol sy'n cynnwys ymarferwyr llaw-rydd.

O gwmpas amseroedd y cyfarfodydd allweddol hyn, rydym yn awyddus i staff strwythuro eu horiau gwaith fel eu bod yn addas iddynt hwy. Fodd bynnag, pan fo iechyd y cyhoedd yn caniatáu hynny, holwn am o leiaf un diwrnod yr wythnos yn un o safleoedd Peak er mwyn sicrhau bod gennych wreiddiau yn ein gwaith a'ch bod yn meithrin pwerthynas gyda'r tîm a'r gymuned leol.

Mae ein safle yn yr Hen Ysgol ar yr un lefel, ac â thoiled hygyrch a lle parcio pwrpasol. Mae mynediad i'n swyddfa yn yr Hen Orsaf i fyny grisiau, ac ar hyn o bryd mae gofod prosiect platfform 2 yn cael ei gyrraedd trwy gyfrwng grisiau a llwybr (mae gan Trafnidiaeth dros Gymru gynlluniau ar y gweill i osod lifft). Os gwelwch yn dda rhowch wybod i ni ynghylch unrhyw anghenion hygyrchedd yn eich cais er mwyn i ni gael trafod rhain gyda chi.

Cwestiynau cyson

Does gen i ddim mo'r holl brofiad, gwybodaeth, medrau yr ydych yn eu rhestru – A ddylwn i gyflwyno cais? Dylech! Wrth gwrs mae'n grêt os fedrwch chi ddangos bod gennych chi brofiad, medrau a gwybodaeth, ond peidiwch â rhoi'r ffidil yn y to os na fedrwch chi dicio pob boc. Medrwn gefnogi eich datblygiad proffesiynol a rydym yn rhoi gwerth mawr ar nodweddion personol.

Dydw i ddim yn byw yng Nghymru – ga i ymgeisio? Rydym yn croesawu ceisiadau oddi wrth pa le bynnag yr ydych wedi eich lleoli ond rydym yn chwilio am ymarferwr sy'n medru cysylltu yn uniongyrchol â phrofiad bywyd y bobl ifanc sy'n bwy yn y cymunedau yr ydym yn byw ynddynt, sydd ag ymdeimlad dwfn â Chymru, ei chelfyddydau, ei hiaith a'i diwylliant ac a fydd yn gefnogwr ac eiriolwr brwd ac effeithiol drostynt.

A oes angen i fi fedru siarad Cymraeg? Mae'r gallu i siarad a / neu ddeall Cymraeg yn rhywbeth y byddem yn falch ohono, ond mae'n bwysicach i chi ddangos rhannu ein brwdfrydedd a'n hymrwymiad dros y Gymraeg.

A fedra i gyflawni'r swydd hon yn gweithio o adref? Pan fy rheolau iechyd cyhoeddus yn caniatáu hynny, rydym eisiau i chi weithio ar un o'n safleoedd o leiaf unwaith yr wythnos. Ar hyn o bryd mae gennym swyddfa yn yr Hen Ysgol Crucywel a gobeithiwn fod â gofod ar gyfer desg yn ein gofod newydd yng Ngorsaf Reilffordd Y Fenni yn ystod 2021.

A oes angen i fi fedru gyrru ar gyfer y swydd hon? Mae Peak wedi ei ymrwymo ei hun i ostwng in ôl troed carbon, a rydym yn gweithio gydag ymarferwyr i'w cefnogi i ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus lle bynnag y bo hynny'n bosib. Fodd bynnag, mae'r rôl gyda Phobl Ifanc yn galw am deithio i fannau gwledig a diarffordd, lle nad oes dim neu ond ychydig iawn o wasanaethau trafndiaeth gyhoeddus, felly mae medru gyrru a chael mynediad at eich cludiant eich hun yn gaffaeliad mawr.

Rwy'n gofalu am eraill – pa mor hyblyg yw'r swydd hon? Byddem yn barod i ystyried cytundeb blynyddol (e.e. gweithio mwy o oriau yn ystod cyfnod y tymor ysgol), ynteu ledu'r gwaith dros gyfnod o wythnos o gwmpas ymrwymadau eraill. Yr her bennaf i dîm bychan yw bod dim modd i ni ymateb ar fyr rybudd i fylchau, ond rydym yn ceisio gweithio'n hyblyg.

Pam mai swydd tymor penodol yw hon? Mae'r rôl hon, a'r swydd cydymaith Cyfathrebu newydd yn swyddi staff newydd o fewn Peak, ac rydym yn cynnig cytundebau tymor penodol er mwyn i ni fedru rhoi prawf ar strwythur staff newydd. Mae'r cytundebau yn rhai tymor penodol hefyd am ein bod ni wedi sicrhau'r adnoddau ariannol i dalu am y swyddi hyn am 12 mis.

A yw hi'n debygol y bydd y cytundeb yn cael eu ymestyn? Mae model ariannol Peak wedi ei darfu gan y pandemig. Rydym wrthi'n codi arian yn ragweithiol ac yn edrych am ffyrdd newydd o gynhyrchu incwm er mwyn sicrhau hyfywedd hir-dymor y swyddi hyn a rhai eraill i staff.

A ydych chi'n holi i staff gyfyngu eu hymrwymadau i waith arall y tu hwnt i Peak? Mae Peak yn gweld budd o gael ymarferwyr sy'n gweithio gyda mwy nag un sefydliad, neu yn gweithio yn artistig. Maent yn dod â choethder profiad, rhwydweithiau gwerthfawr a gwybodaeth i'w swyddogaethau yn Peak. Fodd bynnag, rydym yn rhoi gwerth mawr ar fod yn agored, ac yn holi i staff rannu gwybodaeth ynghylch unrhyw ymrwymadau gwaith eraill sy'n ennill arian, er mwyn i ni fedru sicrhau nad oes unrhyw wrthdaro o ran buddiannau.

Fuasech chi'n ystyried rhannu'r gwaith rhwng mwy nag un person? Gan mai rolau rhan-amser yw'r rhain, dydym ni ddim o'r farn y byddai'n addas i'r swyddi hyn gael eu rhannu rhwng mwy nag un person.

Beth yw'r dyddiad cychwyn mewn swydd? Hoffem fod wedi penodi mewn pryd i'r swyddogaethau hyn fod yn cychwyn ar y gwaith ar y 1af Gorffennaf.

Mae'r rhaid i mi roi rhybudd ymadael hir yn fy swydd bresennol; a oes diben i mi gyflwyno cais? Oes, mae gennym gytundebau gydag ymarferwyr llaw-rydd er mwyn bodloni ein gofynion ar hyn o bryd, ac os fyddwn ni'n cynnig y swydd i chi yna rydym yn barod i aros!

Mae gen i anghenion mynediad penodol; sut fyddwch chi'n eu bodloni? Mae Peak yn ymdrechu i fod yn gyflogwr cyfartal. Rydym yn gwybod bod 'na rwystrau lu sy'n rhwystro pobl rhag gweithio yn ein sector, a bod angen i ni ddysgu cryn dipyn er mwyn mynd i'r afael â'r rhain. Os gwelwch yn dda cysylltwch â ni er mwyn i ni drafod sut y medrwn eich cefnogi.

Pa adnoddau fyddwch chi'n eu darparu er mwyn i mi fedru gweithio o adref? Rydym yn talu lwfans misol penodol er mwyn cynorthwyo staff i fedru talu'r costau ychwanegol o weithio o adref. Nid ydym yn cynnig ffôn symudol gwaith ar hyn o bryd, ond rydym yn darparu gliniadur gwaith ac yn darparu offer pellach er mwyn bodloni eich gofynion a'ch cynorthwyo i gyflawni amcanion eich gwaith.



Ahoi! What Grows Here?, Autumn School 2019 with Owen Griffiths & Ella Gibbs. Photo by Vaida Barzdaite

Cysylltu â ni

Sut fedra i ddod i wybod rhagor ynghylch Peak, y swydd a gwaith Peak? Ewch i ymweld â'n gwefan www.peak.cymru, ac edrychwch ar ein harchif prosiectau.

Anfonwch ebost atom info@peak.cymru gyda'r gair Recruitment fel Pwnc neu anfonwch neges uniongyrchol trwy'r cyfryngau cymdeithasol i ofyn cwestiwn penodol, ac fe wnawn ni drefnu amser i gael gair gyda'n cyfarwyddwyr (Justine a Melissa).

